# Prosiect Maen Hir Cylchlythyr Cymunedol

02 Hydref i 15 Tachwedd 2024

lightsource bp

## Mae Lightsource bp yn eich gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Maen Hir

Mae Prosiect Maen Hir yn brosiect solar a storio ynni rydyn ni'n ei gynllunio yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn.

Mae gan ein prosiect arfaethedig y potensial i gynhyrchu 360 megawat (MW) o drydan drwy baneli solar ar y ddaear — digon o ynni glân i roi pŵer i tua 140,000 o gartrefi ac osgoi mwy na 71,000 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.

Byddai'n cynnwys gosod paneli solar ffotofoltäig (PV) a chyfleuster storio ynni ar y safle, ynghyd â seilwaith i gysylltu â'r grid cenedlaethol fel y gall y trydan y mae'n ei gynhyrchu fod ar gael i gartrefi a busnesau.

Mae prosiect solar cymunedol wedi'i ymgorffori yn ein cynlluniau a fyddai'n cynhyrchu arian y gellid ei ddefnyddio i gefnogi a chyflawni prosiectau a mentrau lleol er budd y cymunedau lleol sydd agosaf at y datblygiad.

Yn amodol ar ganiatâd, byddai Prosiect Maen Hir yn cefnogi Rhaglen Ynys Ynni™ Môn, gan ddarparu trydan fforddiadwy, glân i helpu i gyflawni targedau Sero Net Llywodraeth Cymru, tra'n darparu sicrwydd diogelwch o ran cyflenwad a gwerth i bob un ohonom.

## Dewch draw i ddigwyddiad

Ymunwch â ni mewn unrhyw un o'r digwyddiadau gwybodaeth wyneb-i-wyneb neu ar-lein yr ydym yn eu cynnal (manylion isod) i ddarganfod mwy am ein cynigion, gofyn cwestiynau i aelodau'r tîm prosiect a rhannu eich barn gyda ni.

| | |
|---|---|
| **Mercher 09 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Neuadd y Dref Llangefni**<br>Sgwâr Bulkeley, Llangefni, LL77 7LR |
| **Gwener 11 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Neuadd Bentref Talwrn**<br>Talwrn, LL77 7SU |
| **Iau 17 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Neuadd Bentref Llanddeusant**<br>Llanddeusant, Caergybi, LL65 4AA |
| **Gwener 18 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Neuadd Goffa Amlwch**<br>18 Stryd y Farchnad, Amlwch, LL68 9ET |
| **Sadwrn 19 Hydref 2024**<br>10.00-14.00 | **Neuadd Bentref David Hughes**<br>Stryd Fawr, Cemaes, LL67 0HL |
| **Mawrth 22 Hydref 2024**<br>18.00-19.00 | **Digwyddiad ar-lein - Cymraeg**<br>Cofrestrwch i fynychu ar ein gwefan |
| **Sadwrn 26 Hydref 2024**<br>10.00-14.00 | **Y Ganolfan, Ysgol Gymuned Llannerchymedd**<br>Llannerchymedd, LL71 8DP |
| **Llun 28 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Canolfan Gymunedol Ysgol Llanfechell**<br>Lôn y Mynydd, Llanfechell, LL68 0SA |
| **Mawrth 29 Hydref 2024**<br>13.30-19.30 | **Canolfan Gymunedol Ysgol Rhosybol**<br>Rhosybol, Amlwch, LL68 9PP |
| **Mercher 30 Hydref 2024**<br>18.00-19.00 | **Digwyddiad ar-lein - Saesneg**<br>Cofrestrwch i fynychu ar ein gwefan |

## Dweud eich dweud

### Hoffem glywed eich barn am ein cynlluniau. Mae eich adborth yn bwysig i ni.

Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwn yn ystod yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â chanfyddiadau ein hasesiadau parhaus, i helpu i gwblhau'r cais am ganiatâd datblygu y byddwn yn ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio y flwyddyn nesaf.

Hoffem wahodd eich barn yn benodol am:


- Y prosiect yn gyffredinol
- Ein huwchgynllun enghreifftiol wedi'i ddiweddaru sy'n amlinellu diwyg arfaethedig y cynllun
- Y coridor llydan lle gellid gosod cebl tanddaearol sy'n cysylltu'r datblygiad â'r grid
- Mesurau a gynigir i osgoi neu leihau effeithiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- Prosiectau a mentrau y gallai'r fferm solar gymunedol eu cefnogi
- Unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am ein cynlluniau

Gallwch gyflwyno eich sylwadau i'r ymgynghoriad hwn fel a ganlyn:

- **Ar-lein:** cwblhewch y ffurflen adborth ar-lein ar dudalen we ein prosiect
- **Yn ysgrifenedig:** llenwch gopi printiedig o'r ffurflen adborth a'i chyflwyno mewn digwyddiad neu ei hanfon atom yn FREEPOST MAEN HIR PROJECT

**Rhaid derbyn yr holl adborth i'r ymgynghoriad erbyn Dydd Gwener 15 Tachwedd 2024.**

# Lleoliad y prosiect a ffin y safle




**ALLWEDD**

- PV Solar ac lliniaru/amrywio amgylcheddol
- Opsiynau Safle Is-orsaf a Storio Ynni Batri
- Corridor Llwybr Cebl

**Lleoliadau digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb:**

1. Neuadd y Dref Llangefni
2. Neuadd Bentref Talwrn
3. Neuadd Bentref Llanddeusant
4. Neuadd Goffa Amlwch
5. Neuadd Bentref David Hughes
6. Y Ganolfan, Ysgol Gymuned Llannerchymedd
7. Canolfan Gymunedol Ysgol Llanfechell
8. Canolfan Gymunedol Ysgol Rhosybol

## Cysylltwch â ni'n uniongyrchol am fwy o wybodaeth:

E-bostiwch ni:
maenhir@lightsourcebp.com

Ffoniwch ni:
Rhadffôn 08081 756663
(Ar agor 09.00-17.00 Llun i Gwener)

Ewch i'n gwefan:
https://lightsourcebp.com/uk/project/maen-hir-solar-energy-storage-welsh/